



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

**CYNGOR SIR YNYS MÔN A CHYNGOR GWYNEDD**  
**Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar y Cyd Gwynedd a Môn**  
**2011 - 2026**

**NODYN TREFNIADAU AR GYFER PARATOI A**  
**MABWYSIADU CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL**

## **Nodyn trefniadau paratoi CCA**

### **CYNNWYS**

	<b>Rhif Tudalen</b>
<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>2. Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a'r CDLI</b>	<b>1</b>
<b>3. Diben y papur hwn</b>	<b>1</b>
<b>4. Nodau'r papur</b>	<b>1</b>
<b>5. Statws CCA wrth Wneud Penderfyniadau</b>	<b>2</b>
<b>6. Rhaglen CCA y CDLI</b>	<b>2</b>
<b>7. CCA: Cynnwys ac Ymgynghori</b>	<b>2</b>
<b>8. CCA eraill</b>	<b>3</b>
<b>9. Aseidiadau</b>	<b>3</b>
<b>10. Monitro ac Adolygu CCA</b>	<b>4</b>
<b>11. Camau Paratoi CCA</b>	<b>4</b>

### **ATODIADAU**

<b>1. Rhestr CCA</b>	<b>8</b>
<b>2. Cynllun Cynnwys Rhanddeiliaid a Chymunedau'r CCA</b>	<b>9</b>
<b>3. Geirfa</b>	<b>12</b>

## **Nodyn trefniadau paratoi CCA**

### **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Mae'r Nodyn hwn wedi'i baratoi gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn i egluro sut a phryd y bydd cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn cael eu paratoi i gefnogi rhai polisiâu yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026, a gafodd ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2017.
- 1.2 Mae'r Nodyn yn egluro sut yr eir ati i baratoi'r CCA, i sicrhau eu bod yn glir, cynhwysol ac yn dryloyw.

### **2. Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a'r CDLI**

- 2.1 Mae'r CDLI yn cynnwys polisiâu cynllunio Awdurdod Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn ac Awdurdod Cynllunio Gwynedd i'w defnyddio wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau sy'n ymwneud â datblygu a defnyddio tir yn ardal y CDLI. Mae ardal y CDLI yn ymdrin â Môn gyfan ac ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, sydd ddim yn cynnwys ardal ym Mharc Cenedlaethol Eryri a'r CDLI hwn yw'r cynllun datblygu sydd wedi'i fabwysiadu tan 2026.
- 2.2 Er bod y CDLI yn cynnwys polisiâu a chynigion sy'n ffurfio'r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio, nid yw'n cynnwys gormod o fanylion. Felly, bydd y CDLI yn cael ei ategu gan gyfres o ddogfennau o'r enw Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i gynorthwyo ymgeiswyr, asiantau ac eraill i ddeall, dehongli a chymhwyso rhai polisiâu'r CDLI wrth baratoi ceisiadau cynllunio ac i gynorthwyo swyddogion cynllunio a'r Pwyllgorau Cynllunio wrth wneud penderfyniadau cynllunio.
- 2.3 Rhaid bod cysylltiad clir rhwng y CCA â pholisiâu yn y CDLI ac mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â'r CDLI a pholisi cynllunio cenedlaethol. Dim ond canllawiau a chynghor y mae'r CCA yn eu cynnwys ac ni allant, er enghraifft, lunio polisiâu neu feini prawf newydd neu ddiwygio polisiâu neu feini prawf cyfredol ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- 2.4 Tra bydd CCA i gefnogi'r CDLI yn cael eu paratoi, penderfynodd y Cynghorau i ddal i ystyried CCA perthnasol a gafodd eu mabwysiadu i gefnogi'r hen gynlluniau datblygu a oedd yn bodoli cyn mabwysiadu'r CDLI hyd at yr adeg honno pryd y bydd y canllawiau hynny'n cael eu dileu neu eu disodli.

### **3. Diben y Nodyn hwn**

- 3.1 Rhaid i'r Cynghorau baratoi CCA mewn ffordd drefnus ac amserol i sicrhau bod y CDLI mor effeithiol â phosibl wrth reoli datblygu tir i hwyluso datblygu cynaliadwy.
- 3.2 Mae'r Nodyn hwn yn disgrifio dull methodolegol a chyson o baratoi a chyhoeddi'r holl raglen CCA, gan fynd â dogfennau drwy'r camau o ddrafftio, ymgynghori, adolygu a chymeradwyo, sef y gweithdrefnau a gymeradwyir gan ganllawiau CDLI Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015, para 7.3.7). Mae cymryd y camau hyn yn sicrhau bod y CCA a gaiff eu mabwysiadu'n cario'r pwysau angenrheidiol fel ystyriaeth berthnasol yn ystod y broses gwneud penderfyniadau.
- 3.3 Mae'r siart lif yn Adran 11 yn dangos chwe cham paratoi CCA.

### **4. Nodau'r Nodyn hwn**

- 4.1 Diben y Nodyn hwn yw cofnodi'r broses ar gyfer paratoi'r CCA a'r cyfleoedd i randdeiliaid, y cyhoedd ac asiantaethau gyfrannu.

## Nodyn trefniadau paratoi CCA

- 4.2 Mae'r Nodyn hwn yn nodi dull o sicrhau bod CCA'n cael eu paratoi mewn ffordd gyson, ynghyd â'r modd yr eir ati i ymgysylltu ac ymgynghori. Mae'n rhwymo'r Cyngorau i lunio CCA gan gydymffurfio â'r prosesau ymgynghori a nodwyd.
- 4.3 Mae'r nodyn hwn:
- i. yn cadarnhau pa CCA a ragwelir ar hyn o bryd sydd angen eu paratoi;
  - ii. yn esbonio'r camau wrth baratoi CCA a'r broses a'r gweithdrefnau a ddilynir;
  - iii. yn rhoi gwybod i bobl pryd maent yn cael cymryd rhan;
  - iv. yn egluro sut bydd y Cyngorau'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r CCA unwaith maent wedi'u mabwysiadu a dod i rym.

## 5. Statws CCA wrth Wneud Penderfyniadau

- 5.1 Nid oes gan CCA yr un statws neu bwysau a roddir i bolisiau cynlluniau datblygu mabwysiedig yn Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 sy'n nodi:

*Rhaid i geisiadau cynllunio gael eu penderfynu yn unol â'r cynllun mabwysiedig oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall.*

- 5.2 Mae CCA yn ategu'r polisiau yn y CDLI ond nid ydynt yn cael eu hystyried fel rhan o'r Cynllun mabwysiedig. Felly, fe edrychir arnynt fel 'ystyriaeth cynllunio berthnasol' wrth wneud penderfyniadau (Llywodraeth Cymru 2015<sup>1</sup>, rhan 7.3). Mae 'ystyriaeth cynllunio berthnasol' yn fater dylid roi sylw iddo wrth benderfynu ynglŷn â chais cynllunio neu mewn apêl yn erbyn penderfyniad cynllunio. Y sawl sy'n gwneud y penderfyniad sy'n penderfynu beth yw'r pwysau a roddir i ystyriaethau cynllunio perthnasol wrth gyrraedd penderfyniad.
- 5.3 Er mwyn i CCA gario pwysau sylweddol wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys mewn achosion lle mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n penderfynu ynglŷn ag apêl gynllunio, rhaid i'r CCA ddeillio o'r Cynllun Datblygu a bod yn gyson â'r Cynllun hwnnw a rhaid iddynt fod yn destun ymgynghori (Llywodraeth Cymru, 2015<sup>2</sup>, rhan 7.3) a'u bod wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol (wedi'u cymeradwyo).

## 6. Rhaglen CCA y CDLI

- 6.1 Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o CCA sydd wedi cael eu hadnabod hyd yma a pha bolisiau fydd yn cael eu hategu gan y CCA.
- 6.2 Mae blaenoriaeth wedi'i rhoi i baratoi dogfennau CCA yn ôl y testun a'r amser ac adnoddau sydd ar gael. Mae'n ofynnol i'r Cyngor fonitro ei berfformiad o ran paratoi a mabwysiadu CCA.

## 7. CCA: Cynnwys ac Ymgynghori

- 7.1 Mae'r Cyngorau'n ymrwymedig i gynnwys rhanddeiliaid ac ymgynghori â'r cyhoedd gan gydnabod y buddion sy'n codi pan fydd canllaw lleol yn cael ei lunio ar sail cyfraniad rhanddeiliaid lleol. Mae cynnwys rhanddeiliaid fel hyn ac ymgynghori ehangach yn sicrhau bod y Cyngorau'n hollol

---

<sup>1</sup> Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) Ail Argraffiad

<sup>2</sup> Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) Ail Argraffiad

## Nodyn trefniadau paratoi CCA

ymwybodol o'r materion lleol ac yn gallu derbyn cyngor, help a syniadau newydd a dylai hyn arwain at greu gwell canllawiau. Dylai hefyd helpu i atal problemau a gwrthwynebiadau yn nes ymlaen.

- 7.2 Mae cynnwys rhanddeiliaid yn ganolog i'r trefniadau gan gynnig y cyfle i eraill ddeall, dylanwadu ar a siapio cynnwys y CCA. Mae "cynllun cynnwys cymunedau" strwythuredig yn elfen hanfodol o greu CCA cadarn ac mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015<sup>3</sup>, para 7.3.3) yn cadarnhau na fydd CCA yn cario fawr o bwysau wrth wneud penderfyniadau oni bai iddynt gael eu creu yn unol â Chynllun Cynnwys Cymunedau (CCC).
- 7.3 Ceir y Cynllun Cynnwys Cymunedau ar gyfer paratoi CCA yn Atodiad 2.

## 8. CCA eraill

- 8.1 Yn ychwanegol at y rhaglen CCA a gafodd eu hadnabod drwy'r broses o baratoi'r CDLI (Atodiad 1), efallai y bydd yr angen am CCA eraill yn codi wrth roi'r CDLI ar waith. Bydd monitro'r CDLI yn flynyddol yn chwarae rôl wrth adnabod unrhyw anghenion am CCA newydd i ategu polisiau'r Cynllun.
- 8.2 Gall fod angen CCA newydd mewn cysylltiad â phwnc penodol ychwanegol yr ymdrinnir ag ef gan y CDLI, neu ag ardal a/neu safle penodol. Mae'r Cynghorau wedi adnabod rhai safleoedd a gafodd eu dynodi lle gellir bod angen yn y dyfodol am friffiau datblygu. Efallai y bydd cymunedau hefyd am ystyried Cynlluniau Lle.
- 8.3 **Briffiau Datblygu:** Dogfennau arweiniol safle-benodol yw'r rhain y gellir eu dwyn yn eu blaenau a'u mabwysiadu fel CCA. Nid yw briffiau datblygu bob amser yn gorfod cael eu mabwysiadu fel CCA ond byddant yn cario mwy o bwysau (h.y. darparu mwy o sicrwydd) wrth wneud penderfyniadau, os ydynt yn dilyn y llwybr hwn. Mae'r Cynghorau'n cydnabod y gall trafodaethau cynllunio cyn ymgeisio, lle yr ymgymerir â nhw, fod yn sail ddefnyddiol i'r math yma o CCA a bydd yn cydweithio â rhanddeiliaid perthnasol ar gyfnewid gwybodaeth am safleoedd lle mae ar gael.
- 8.4 **Cynlluniau Lle:** Mae Llywodraeth Cymru'n mynd â'r dull Cynllun Lle o gynllunio cymunedol rhagddo ar draws Cymru. Gall Cynlluniau Lle gael eu mabwysiadu fel CCA ar yr amod eu bod yn ffitio i strwythur polisi cyffredinol y CDLI ac wedi bod yn ddarostyngedig i ymgyngori, diwygio a chael eu cymeradwyo. Sail leol sydd i Gynlluniau Lle a byddant yn dibynnu'n drwm ar ddiddordeb a chyfranogiad Cynghorau Tref a Chymuned.
- 8.5 Am fwy o wybodaeth am Gynlluniau Lle, dylech gyfeirio at wefan Cymorth Cynllunio Cymru ar: <http://www.planningaidwales.org.uk/?lang=cy> Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi cynnal amryw o weithdai a digwyddiadau rhwydweithio i helpu i hybu Cynlluniau Lle. I gael hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf, chwiliwch am 'cynlluniau lle' ar ei wefan. Mae'r wefan yn cynnwys nodiadau siaradwyr a chyflwyniadau (e.e. <http://www.planningaidwales.org.uk/place-plans-from-concept-to-reality/>) Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn cynnig pecyn cymorth ar gyfer Cynlluniau Lle: [www.shapemytown.org](http://www.shapemytown.org)

## 9. Asesiadau

- 9.1 **Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – Asesiadau Statudol:** Gan fod CCA yn ychwanegu manylion at bolisiau'r CDLI sydd eisoes wedi bod yn

---

<sup>3</sup> Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) Ail Argraffiad

## **Nodyn trefniadau paratoi CCA**

ddarostyngedig i asesu statudol (Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd), ni ddylai fod angen gwneud yr asesiadau hyn mewn cysylltiad â'r CCA a nodwyd yn ystod y broses o archwilio'r CDLI. Fodd bynnag, bydd y Cyngorau'n asesu'r sefyllfa hon ar sail unigol.

- 9.2 Gall CCA ardal- neu safle-benodol megis Briffiau Datblygu a Chynlluniau Lle fod yn ddarostyngedig i asesiadau statudol. Lle bo'n berthnasol, bydd y Cyngorau'n egluro mewn CCA unigol, sut mae gwahanol asesiadau wedi'u hystyried a'r dull a ddefnyddiwyd.


### **10. Monitro ac Adolygu CCA**

- 10.1 Bydd gweithredu a chyflwyno CCA yn cael eu monitro fel rhan o broses monitro blynyddol y CDLI a fydd yn cynnwys monitro polisiâu neu gynigion sy'n gysylltiedig â gwahanol feysydd. Gwerthusir effeithiolrwydd CCA ochr yn ochr â'r polisiâu y maent yn eu hategu fel rhan o'r broses hon.
- 10.2 Cedwir CCA unigol dan sylw yng ngoleuni unrhyw wybodaeth berthnasol ac efallai y bydd yn rhaid eu diweddarau i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau, polisi neu ganllawiau, neu o ganlyniad i faterion sy'n codi o roi'r CCA ar waith. Lle ystyrir bod angen diweddarau, bydd y newidiadau'n ddarostyngedig i ymgynghori, adolygu a chael eu cymeradwyo fel bo'n briodol.

### **11. Camau Paratoi CCA:**

- 11.1 Bydd y broses chwe cham ar gyfer paratoi CCA fel yr amlinellir yn y siart llif isod.

Nodyn trefniadau paratoi CCA



## Nodyn trefniadau paratoi CCA

11.2 Mae Tabl 1 yn egluro pob cam o'r broses baratoi yn fanylach gan gynnwys yr amserlennu sydd ei angen i'r Cynghorau gyflawni'r rhaglen mabwysiadu CCA a nodir yn Atodiad 1.

**Tabl 2: Y Broses Paratoi CCA – Cam wrth Gam**

Cam CCA a Phwrpas	Pwy sy'n gyfrifol a/neu'n cyfrannu?	Cyfraniad Aelodau'r Cyngor
<p><b>Cam 1:</b> Adolygu ac Ymarferiad Cwmpasu</p>	<p>Bydd swyddogion polisi cynllunio'n adolygu deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n berthnasol i'r pwnc, CCA y gorffennol, CCA wedi'u cyhoeddi gan Awdurdodau Lleol eraill a gwybodaeth arall sy'n gysylltiedig â'r pwnc a fydd yn ffurfio cefndir a chyd-destun y CCA. Gall y cam hwn gynnwys ymgysylltu cyhoeddus, yn dibynnu ar y pwnc.</p> <p>Bydd swyddogion yn adnabod <b>Randdeiliaid Pwnc</b> arbenigol (gweler yr <b>Eirfa</b>) i gael barn ganddynt ar gynnwys y CCA Drafft Dros Dro a chytuno arnynt.</p>	<p>Swyddogion Polisi Cynllunio</p> <p>Ddim yn berthnasol</p>
<p><b>Cam 2:</b> CCA Drafft Dros Dro</p>	<p>Bydd swyddogion polisi cynllunio'n ymgysylltu gyda <b>Rhanddeiliaid Pwnc</b> i gael adborth am y CCA Drafft Dros Dro.</p>	<p>Swyddogion Polisi Cynllunio</p> <p>Rhanddeiliaid Pwnc</p> <p>Ddim yn berthnasol</p>
<p><b>Cam 3:</b> CCA Drafft Ymgynghori</p>	<p>Bydd swyddogion polisi cynllunio'n diweddarau'r Drafft Dros Dro ar ôl derbyn adborth gan y <b>Rhanddeiliaid Pwnc</b> i greu CCA Drafft Ymgynghori.</p> <p>Bydd swyddogion polisi cynllunio'n diweddarau'r Drafft Ymgynghori ar ôl derbyn adborth gan y Panel CDLI</p>	<p>Swyddogion Polisi Cynllunio</p> <p>Rhanddeiliaid Pwnc</p> <p>(i) Panel y CDLI i gael sylwadau dechreuol am y CCA Drafft Ymgynghori</p> <p>(ii) Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cymeradwyo'r Drafft Ymgynghori ar gyfer ymgynghori cyhoeddus</p>
<p><b>Cam 4:</b> Ymgynghori Cyhoeddus</p>	<p>Bydd y Cynghorau'n cyhoeddi'r CCA Drafft Ymgynghori ar gyfer ymgynghori â <b>rhanddeiliaid penodol</b> (gweler yr <b>Eirfa</b>), <b>rhanddeiliaid eraill</b> (gweler yr <b>Eirfa</b>), a'r cyhoedd. Bydd yr ymgynghori'n unol â <b>Chynllun Cynnwys Cymunedau'r CCA</b> (gweler <b>Atodiad 2</b>).</p>	<p>Rhanddeiliaid Penodol</p> <p>Rhanddeiliaid Eraill</p> <p>Y Cyhoedd</p> <p>Rhoddir gwybod i Gynghorwyr drwy e-bost neu lythyr</p>



**Nodyn trefniadau paratoi CCA**

<p><b>Cam 5: CCA Terfynol</b></p>	<p>Bydd swyddogion polisi cynllunio'n ystyried y sylwadau a dderbynnir drwy'r cam ymgynghori cyhoeddus ac yn adolygu/diwygio'r CCA Drafft Ymgynghori mewn trafodaeth â'r <b>Rhanddeiliaid Pwnc</b>.</p> <p>Cyhoeddir CCA Terfynol a fydd yn cael ei ategu gan Ddatganiad Ymgynghori i grynhoi manylion y cam ymgynghori, gan egluro'r sylwadau a dderbyniwyd ac yn manylu ar unrhyw newidiadau a wnaethpwyd o ganlyniad i'r broses ymgynghori.</p>	<p>Swyddogion Polisi Cynllunio</p> <p>Rhanddeiliaid Pwnc</p>	<p>Panel y CDLI</p> <p>Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i'w mabwysiadu pan mae'r CCA yn berthnasol i ardal y CDLI cyfan</p> <p>Cabinet Cyngor Gwynedd/ Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir</p>
<p><b>Cam 6: Mabwysiadu CCA, eu cyhoeddi ac yn aGweithredu</b></p>	<p>Unwaith iddynt gael eu mabwysiadu, bydd y CCA yn cael eu defnyddio at ddibenion Rheoli Datblygu.</p> <p>Bydd y Cyngorau'n cyhoeddi'r CCA mabwysiedig gan sicrhau eu bod ar gael a'u hyrwyddo'n unol â <b>Chynllun Cynnwys Cymunedau'r CCA</b> (gweler <b>Atodiad 2</b>)</p>	<p>Swyddogion Polisi Cynllunio</p>	<p>Ynys Môn pan mae'r CCA yn berthnasol i un o'r Awdurdodau Cynllunio yn unig</p>

## Nodyn trefniadau paratoi CCA

### Atodiad 1

Rhestr CCA

Enw	Polisiâu perthnasol yn y CDLI
Ymrwymïadau cynllunio, sy'n cynnwys cyfraniadau gan ddatblygwyr ar gyfer ystod o isadeiledd	PS 2 a ISA 1 yn ogystal â pholisiâu defnydd tir perthnasol, e.e. ISA 5 (llecynnau agored), TAI 15 (tai fforddiadwy)
Cynnal a chreu cymunedau unigryw a chynaliadwy	PS 1, ISA 1, PS 5, TAI 8
Tai fforddiadwy	PS 17, PS 18, TAI 18, TAI 16
Tai marchnad lleol	TAI 5
Math a chymysgedd o dai	TAI 8
Llecynnau agored of fewn datblygiad preswyl newydd	ISA 5
Datblygiad twristiaeth – atyniadau a llety	TWR 2, TWR 3, TWR 4, TWR 5
Dylunio, yn cynnwys rheoli carbon, hygyrchedd, safleoedd mewnlenwi, goleuo (nid yw'r rhestr yma yn un cynhwysfawr)	PS 5, PS 6, PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 4, PCYFF 5, PCYFF 6
Briffiau datblygu i safleoedd/ ardaloedd unigol	TAI 8, PCYFF 2, CYF 7, CYF 8
Addasu adeiladau i fflatiau hunan- gynhaliol neu dai mewn aml- feddiannaeth	TAI 9, PCYFF 2, PCYFF 3
Addasu adeiladau yng nghefn gwlad	TAI 7, CYF 6
Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth, unedau manwerthu	ISA 2, CYF 3, CYF 4, MAN 2, MAN 4
Arfer da Gwarchod Bioamrywiaeth wrth gynllunio a datblygu	AMG 5, AMG 6
Asedau treftadaeth	AT 1
Lleoli datblygiad ynni adnewyddadwy ar wahân	PS 7, ADN 1, ADN 2, ADN 3
Wylfa Newydd	PS 9, PS 10, PS 11, PS 12
Safonau Parcio	TRA 2

## **Nodyn trefniadau paratoi CCA**

### **Atodiad 2**

#### **Cynllun Cynnwys Cymunedau CCA (CCC)**

##### **1. Cyflwyniad**

Mae'r CCC hwn ar gyfer paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) wedi'i deilwra at broses paratoi'r CCA. Mae hyn yn golygu bod y dull yn adlewyrchu a bod yn gymesur â manylion a chynnwys gwaith sy'n ymwneud â CCA ac yn addas ar gyfer y partion y disgwylir iddynt gymryd rhan, wrth gyflawni amserlenni'r paratoi.

##### **2. Nodau'r CCC**

I sicrhau bod y broses yn glir, yn dryloyw ac yn gyson, bydd y Cynghoau'n paratoi'r holl ganllawiau cynllunio atodol yn unol â'r CCC hwn sy'n anelu at:

- i) Eich hysbysu pryd a sut y gallwch fynd ati i gyfrannu at baratoi'r CCA.
- ii) Sicrhau'ch bod yn ymwybodol o'r dulliau y bydd y Cynghorau'n eu defnyddio i gyfathrebu a'r cyfnodau pryd y cewch wneud sylwadau.
- iii) Rhoi gwybod i chi sut y bydd y Cynghorau'n rhoi adborth ar sut mae'ch barn wedi cael ei hystyried.

Dylai Briffiau Datblygu a Chynlluniau Lle a all gael eu paratoi o dan arweiniad sefydliadau heblaw am y Cynghorau gael eu llunio ar sail chwe cham paratoi'r CCA (Adran 11 y Nodyn hwn) a dilyn yr egwyddorion a nodir yn y Nodyn a CCC hwn i gael eu mabwysiadu.

##### **3. Camau Paratoi a Mabwysiadu'r CCA**

3.1 Dangosir chwe cham paratoi a mabwysiadu'r CCA yn y Nodyn hwn. Bydd ymwneud â pharatoi'r CCA dan arweiniad Swyddogion Polisi Cynllunio ac yn cynnwys tri brif grŵp ymgynghori, sef:

1. Rhanddeiliaid Pwnc
2. Aelodau'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd/ Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd
3. Rhanddeiliaid Penodol, Rhanddeiliaid eraill a'r Cyhoedd

##### **4. Rhanddeiliaid Pwnc**

4.1 Bydd Swyddogion Polisi Cynllunio yn targedu cyfranogiad yn ystod y camau paratoi cychwynnol. Byddant yn adnabod swyddogion proffesiynol mewn pwnc i fod yn Rhanddeiliaid Pwnc (gweler yr Eirfa). Bydd y swyddogion i'w cynnwys fel Rhanddeiliaid Pwnc yn amrywio'n ôl pwnc/cynnwys y CCA.

##### **5. Cynnwys Rhanddeiliaid Penodol, Rhanddeiliaid Eraill a'r Cyhoedd**

5.1 Y prif gam ymgynghori ar gyfer rhanddeiliaid penodol, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd yw Cam 4 pan fydd y Cyngor, ar ôl ystyried drafft cychwynnol a drafft ymgynghorol, yn ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r CCA Drafft Ymgynghori.

**5.1 Yn ystod y Cam Ymgynghori Cyhoeddus (Cam Paratoi 4), bydd y Cyngor yn:**

## Nodyn trefniadau paratoi CCA

- Hysbysu pob rhanddeiliaid penodol a rhandeiliaid eraill drwy e-bost (oni bai eu bod wedi cysylltu â'r Uned i ofyn am ohebiaeth ysgrifenedig neu pan nad oes cyfeiriad e-bost ar gael) fod CCA ar gael ar gyfer ymgynghori cyhoeddus.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghori drwy gyhoeddi'r CCA ar dudalennau'r CDLI ar wefan y Cyngor, a'r cyfryngau cymdeithasol fel bo'n briodol.
- Trefnu bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael ar-lein ar we-dudalennau CDLI y Cynghorau ac ar ffurf copi caled yn y lleoliadau canlynol:

i) Prif **Swyddfeydd y Cynghorau** - Siopau Gwynedd a Phencadlys Cyngor Sir Ynys Môn; ac yn

ii) Holl **Lyfrgelloedd Cyhoeddus** yng Ngwynedd a Môn

- Darparu ffurflen gyflwyno sylwadau safonol i gyd-fynd â phob CCA drafft ymgynghori i gynorthwyo derbyn sylwadau ar ffurf strwythuredig ac i roi'r trefniadau ymgynghori.
- Darparu **cyfnod ymgynghori 6 wythnos (fel arfer)** i sylwadau gael eu gwneud.

### 5.2 Sut gallir gwneud sylwadau:

- Mae'r Cynghorau'n croesawu pob adborth. Dylid gwneud sylwadau ymgynghori'n ysgrifenedig a'u cyflwyno ar ffurflen sylwadau safonol neu drwy lythyr/e-bost ar wahân at yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
- Efallai y bydd y Cynghorau'n gofyn am adborth manylach/mwy penodol drwy ddyfeisio set o gwestiynau ymgynghori a'u cynnwys mewn ffurflen sylwadau a all fod yn fuddiol iawn wrth ddeall barn pobl.
- Dylid cyflwyno sylwadau ymgynghori cyn dyddiad cau'r ymgynghoriad.

## 6. Ymateb i Adborth o'r Ymgynghori a Mabwysiadu'r CCA terfynol (Camau Paratoi 5 a 6)

6.1 Cyhoeddir ymatebion y Cynghorau i'r sylwadau a godir yn y Cam Ymgynghori Cyhoeddus mewn Datganiad Ymgynghori. Bydd y Datganiad yn egluro sut mae'r CCA wedi cael eu hadolygu/diwygio i roi ystyriaeth i'r sylwadau sydd wedi'u gwneud. Unwaith bod y CCA Terfynol wedi'u mabwysiadu gan y Cynghorau drwy weithdrefnau ffurfiol, fe'u hystyrir fel canllawiau wedi'u mabwysiadu a'u rhoi ar waith, a bydd y Cynghorau'n hysbysu rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel a ganlyn:

- Rhoi gwybod drwy e-bost/ post i'r holl enwau a gyflwynodd sylwadau yn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus am unrhyw CCA a gafodd eu mabwysiadu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol yn dilyn y cam mabwysiadu.
- Cyhoeddi'r CCA ar-lein ar we-dudalennau CCA y Cynghorau cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.
- Rhoi copi caled o'r CCA a fabwysiadwyd yn Siopau Gwynedd ac ym mhrif swyddfa Cyngor Sir Ynys Môn.

6.2 Bydd rhaglen, adroddiadau a chofnodion y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd sydd ar gael ar dudalennau pwyllgor y Cynghorau yn cofnodi hynt y CCA drwy'r broses gymeradwyo ac felly'n gallu cynnig ffynhonnell gyfeirio ddefnyddiol.

### ❖ Manylion Cyswllt yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd:

## **Nodyn trefniadau paratoi CCA**

**E-bost:** polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru  
**Post:** Polisi Cynllunio, Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Castell, Caernarfon, GWYNEDD  
LL55 1SH  
**Ffôn:** 01766 771000 a gofynnwch i siarad efo swyddog yn yr Uned Polisi Cynllunio  
ar y Cyd

**\*PWYSIG:** Gwnewch yn siŵr fod eich manylion cyswllt diweddaraf gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.

## Nodyn trefniadau paratoi CCA

### Atodiad 3

GEIRFA	
<b>Briff Datblygu</b>	Datganiad sy'n amlinellu'r cynigion a gofynion cyffredinol ar gyfer datblygu safle penodol gan gynnwys cynllunio manwl.
<b>Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)</b>	<p>Gwybodaeth ategol ynglŷn â'r polisiau mewn CDLI. Nid yw CCA yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu ac nid ydynt yn ddarostyngedig i archwilio annibynnol ond rhaid iddynt fod yn gyson â'r Cynllun ac â pholisi cynllunio cenedlaethol. Gall CCA fod (diffiniadau o TAN 12: Dylunio, LIC, Mawrth, 2016) yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Seiliedig ar Bwnc:</b> Lle mae angen arweiniad mewn perthynas â materion neu ddefnydd penodol.</li> <li>• <b>Penodol i ardal:</b> Yn berthnasol i arwain datblygu mewn ardaloedd allweddol megis canol trefi, ardaloedd cadwraeth neu gymdogaeth arbennig neu gwr trefol.</li> <li>• <b>Safle-benodol:</b> Arweiniad ar y ffordd y dylid datblygu safle penodol neu i roi gwybodaeth am nodweddion safle penodol yn unol â pholisi lleol/cenedlaethol.</li> </ul>
<b>Cyfranogi</b>	Pobl yn cael eu cynnwys mewn ffordd weithredol gan wneuthurwyr polisi a chynllunwyr gwasanaethau o gyfnod cynnar o gynllunio ac adolygu polisiau a gwasanaethau. (Cyfranogaeth Cymru, 2011 <sup>4</sup> )
<b>Cynllun Lle</b>	Mae Cynlluniau Lle'n cynnig cyfle i drefi neu ardaloedd unigol i gael cynllun cynhwysfawr yn ei le o fewn fframwaith y Cynllun Datblygu Lleol. Maent yn cael eu ffafrio gan Lywodraeth Cymru (LIC, Rhag 2015 <sup>5</sup> ) ond nid oes fformat penodedig ar gyfer Cynllun Lle. Mae cyhoeddi Cynlluniau Lle'n hybu cynnwys cymunedau'n fwy mewn cynllunio, gan eu gadael i siapio eu broydd eu hunain. Nid ydynt yn gyfyngedig i drefi a gallent gynnwys, er enghraifft, bentref, clwstwr o bentrefi/bro, cymdogaeth, canol tref neu ardal adfywio. Mae LIC wedi datblygu cyfres o brosiectau peilot gan anelu at helpu Cynghorau Tref a Chymuned i ddatblygu Cynlluniau Lle.
<b>Cynllun Cynnwys Cymunedau</b>	Yn nodi'r cynllun prosiect y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei ddefnyddio at gynnwys cymunedau lleol, busnesau ac eraill wrth baratoi'r CDLI. Cytunir ar y Cynllun Cynnwys Cymunedau gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu lleol. Lluniwyd y Nodyn hwn at ddibenion cyfranogiad am CCA.
<b>Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)</b>	Y cynllun datblygu statudol gofynnol i bob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru o dan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
<b>Cytundeb Cyflawni</b>	Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer paratoi'r CDLI ynghyd â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau a gyflwynir i Lywodraeth Cymru iddi gytuno arno.
<b>Panel y CDLI</b>	<p>Aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cwrdd fel Panel ac yn cyfarfod i oruchwylio ac ystyried yn fanwl dogfennau drafft paratoi'r CCA cyn iddynt gael eu cyflwyno am benderfyniad gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.</p> <p>Sefydlwyd y Panel yn 2011 ac mae wedi cymryd rhan ym mhob cam o baratoi'r CDLI hyd at y cam mabwysiadu ac fel y gwelir uchod bydd yn parhau i gymryd rhan ar ôl y mabwysiadu wrth baratoi'r CCA a monitro ac adolygu'r Cynllun yn flynyddol. Mae'n cyfarfod yn ôl y gofyn.</p>
<b>Meithrin consensws</b>	Proses o sgwrsio cynnar â grwpiau buddiant a dargedir i ddeall safbwyntiau perthnasol a chytuno ar gamau gweithredu. (LIC, 2015 <sup>6</sup> )

<sup>4</sup> Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru

<sup>5</sup> Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol

<sup>6</sup> Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) Ail Argraffiad

## Nodyn trefniadau paratoi CCA

<b>Rhanddeiliaid</b>	<p>“Unrhyw un a all effeithio ar, neu yr effeithir arno, gan sefydliad, strategaeth neu brosiect”. “Gall cyfranogi fod drwy gyrff cynrychioladol”. Ar gyfer cyfranogi o’r CCA mae’r canlynol wedi cael eu hadnabod:</p> <p><b>Rhanddeiliaid Pwnc:</b> Swyddogion yn y Cynghorau sydd ag arbenigedd proffesiynol cysylltiedig â chynllunio a/neu brofiad o’r maes pwnc, er enghraifft, swyddogion cynllunio, tai, datblygu iaith Gymraeg, tirwedd, cyfreithiol.</p> <p><b>Rhanddeiliaid Penodol:</b> Mae’r rhain yn cynnwys Cynghorau Cymuned, Dinas a Thref a Mudiadau ac unigolion sy’n hysbys i’r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd sydd ag arbenigedd proffesiynol cysylltiedig yn y pwnc perthnasol a/neu brofiad o’r maes pwnc, e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithasau Tai Lleol, Swyddfa Comisiynydd yr Iaith.</p> <p><b>Rhanddeiliaid Eraill:</b> Mae’r rhain yn cynnwys asiantwyr/ ymgynghorwyr cynllunio, unrhyw un arall sydd am gael ei gwybodaeth am y CDLI ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig.</p>
<b>Ymgynghori</b>	Proses ffurfiol lle y gwahoddir sylwadau ar bwnc penodol neu set o bynciau, neu ddogfen ddrafft. (LIC, 2015 <sup>7</sup> )
<b>Ymgysylltu</b>	Proses weithredol a chyfranogol lle y gall pobl siapio a dylanwadu ar bolisi a gwasanaethau ac sy’n cynnwys amrywiaeth eang o wahanol ddulliau a thechnegau. (Cyfranogaeth Cymru, 2011 <sup>8</sup> )

<sup>7</sup> Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) Ail Argraffiad

<sup>8</sup> Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â’r Cyhoedd yng Nghymru